

**Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**Cynhadledd y Gwanwyn 2013**

**Caerdydd 20-21 Ebrill**

**Economi Cryfach, Cymdeithas Tecach**



**Welsh Liberal Democrats**  
**Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**



# Croeso i Gaerdydd

Annwyl Ffrindiau,

Mae hi mor dda i'ch croesawu chi i Gynhadledd y Gwanwyn Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yng Nghaerdydd. Mae'r Blaid wedi gweithio'n galed i sicrhau ein bod ni'n cael penwythnos llawn dadleuon polisi, areithiau, digwyddiadau ymylol a hyfforddi ar gyfer aelodau.

Trwy'r penwythnos, mi fydd y Gynhadledd yn clywed gan Weinidogion Uwch y Democratiaid Rhyddfrydol yn Llywodraeth y Glymblaid am sut maent yn gweithredu ar bolisïau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Trwy roi diwedd ar garchariad yr ifanc, torri treth incwm gweithwyr ar incymau isel a chanolig, a helpu disgyblion o gefndiroedd dan anfantais, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwneud gwahaniaeth positif yn y llywodraeth.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cyflwyno polisïau a fydd yn dod â Chymru allan o'r rhych a gadawyd hi ynndi gan Lafur. Dan Lafur, mae Cymru yn dihoeni ar waelod pob prif dabl cynghrair ac mi fydd ein polisïau ni, a basiwyd yn y Gynhadledd, yn helpu i Gymru symud yn y cyfeiriad cywir.

Nid oes modd ymddiried yn y Blaid Lafur i reoli'r economi. Nid oes modd ymddiried yn y Ceidwadwyr i adeiladu cymdeithas decach. Dim ond y Democratiaid Rhyddfrydol gall adeiladu economi gryfach mewn cymdeithas decach, yn gadael i bawb dod ymlaen yn eu bywydau. Mae'r penwythnos hwn yn gyfle i ni ail-gadarnhau ein hymrwymiad i'r nod hwnnw.

Dymunaf benwythnos da i chi,




**Kirsty Williams,**

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Cynhadledd y Gwanwyn 2013**  
Caerdydd



ENOUGH FOOD FOR EVERYONE 

DIGON O FWYD I BAWB 

THE WORLD PRODUCES ENOUGH FOOD FOR EVERYONE  
BUT NOT EVERYONE HAS ENOUGH FOOD

IT'S UNFAIR, IT'S UNJUST - AND IT'S TOTALLY PREVENTABLE.  
AS THE UK HOSTS THE G8 THIS YEAR, ADD YOUR VOICE TO OUR  
CAMPAIGN TO END GLOBAL HUNGER.

MAE'R BYD YN CYNHYRCHU DIGON O FWYD I BAWB

OND NID OES GAN BAWB DDIGON O FWYD

MAE'N ANNHAG, YN ANGHYFIAWN - A GELLID EI ATAL YN LLWYR.  
WRTH I'R DU GROESAWU CYFARFOD Y G8 ELEN, YCHWANEGWCH  
EICH LLAIS I'N HYMGYRCH I ROI TERFYN AR NEWYN BYD EANG.

JOIN THE CAMPAIGN  
YMUNWCH A'R YMGYRCH

[WWW.ENOUGHFOODIF.ORG](http://WWW.ENOUGHFOODIF.ORG)

## Print & Digital Associates, Specialists in print management.....

If you need it printed? Print and Digital Associates can help. From short run digital newspapers to high volume print with national coverage, from books to glossy brochures and leaflets, we have the solution and expertise to offer.

We provide cold set offset newspaper printing solutions, magazines, leaflets, community newsletters.

- tabloid newspapers
- digital newspapers
- community newsletters
- DL and C6 envelopes

*Let us help maximise  
your campaign budget*



**PRINT &  
DIGITAL**  
ASSOCIATES

**John Croucher**

Commercial Director

m: +44(0)7880 724570

e: [johnc@printanddigitalassociates.co.uk](mailto:johnc@printanddigitalassociates.co.uk)

# Cynnwys

## **Croeso**

Tudalen 3

## **Gwybodaeth**

Lleoliad y Gynhadledd

Tudalen 7

Teithio

Tudalen 9

Diogelwch

Tudalen 10

Cofrestru

Tudalen 12

## **Agenda'r Gynhadledd**

Dydd Sadwrn 20 Ebrill

Tudalen 14

Dydd Sul 21 Ebrill

Tudalen 15

## **Cynigion**

Gwybodaeth am y Cynigion

Tudalen 17

Siarad yn y Gynhadledd

Tudalen 19

Trefn y ddadl & Pleidleisio

Tudalen 21

Cynigion Trefniadol

Tudalen 22

Cynigion

Tudalen 23

## **Digwyddiadau Ymylol**

Tudalen 35

## **Arddangosfa**

Tudalen 40

## **Sesiynau Hyfforddi**

Tudalen 43

## **Cinio'r Gynhadledd**

Tudalen 47

## **Rheolau Sefydlog y Gynhadledd**

Tudalen 48

# Nodiadau

## Lleoliad y Gynhadledd

### Lleoliad

Y lleoliad ar gyfer y Gynhadledd yw Gwesty a Sba Mercure Holland House Caerdydd, 22-24 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0DD.

### Mynediad

Mae lleoliad y Gynhadledd yn gwbl hygyrch i bawb. Mae gan y Ganolfan Gynadledda fynedfa ar wahân i'r gwesty. Bydd arwyddion clir i'ch harwain. Rhaid i bawb sy'n mynychu'r Gynhadledd fynd i mewn drwy fynedfa'r Ganolfan Gynadledda.

### Desg Gofrestru

Gellir dod o hyd i'r Ddesg Gofrestru ger prif fynedfa y Canolfan Gynadledda.

### Dosbarthu Llenyddiaeth

Byddwch yn ymwybodol na chaniateir dosbarthu llenyddiaeth yn y gynhadledd heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gadeirydd Pwyllgor y Gynhadledd.

### Ysmygu

Mae ysmygu yn y Gynhadledd yn anghyfreithlon.

### Ystafell Gotiau

Ni fydd cyfleusterau ystafell gotiau ar gael. Ni fydd bagiau mawr yn cael eu caniatáu tu fewn i leoliad y Gynhadledd.

### Allanfeydd Argyfwng

Mae nifer o allanfeydd argyfwng y tu mewn i'r lleoliad. A wnewch chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'ch allanfa agosaf bob amser.

# Gwybodaeth

## **Ffotograffiaeth Fflach**

Dylai pawb sydd a thueddiad at epilepsi nodi gallai ffotograffiaeth fflach gael ei defnyddio yn Neuadd y Gynhadledd.

## **Eiddo Coll**

Dylai pob eitem o eiddo coll gael ei adail a'i ail-hawlio wrth y Ddesg Gofrestru.

## **Ffonau Symudol & Pheiriannau Galw**

A wnewch chi sicrhau bod pob ffôn symudol a pheiriant galw wedi'i ddiffodd cyn mynd i mewn i Neuadd y Gynhadledd, yr ystafelloedd ymylol a'r sesiynau hyfforddi.

## **Lluniaeth**

Gellir prynu lluniaeth ysgafn o'r cownter yn ardal yr Arddangosfa.



## Teithio

### Sut i Gyrraedd Canolfan y Gynhadledd

Lleolir y Gynhadledd ar Heol Casnewydd, yng nghanol dinas Caerdydd.

Y ffordd fwyaf cyfleus i gyrraedd yw ar drafnidiaeth cyhoeddus. Gall Traveline Cymru roi cyngor ar y math mwyaf priodol o drafnidiaeth cyhoeddus ar eich cyfer. Gallwch gysylltu â nhw ar 0871 200 2233 neu ewch i'w gwefan [www.traveline-cymru.info](http://www.traveline-cymru.info).

**Trên:** Mae gorsaf rheilffordd Heol y Frenhines Caerdydd ychydig funudau o leoliad y Gynhadledd. Mae rhan fwyaf o drenau sy'n teithio ar Reilffyrdd y Cymoedd yn stopio yng nhorsaf Heol y Frenhines, fel arall, gallwch newid yng ngorsaf Caerdydd Canolog.

Wrth adael gorsaf Heol y Frenhines ar droed, trowch i'r dde. Yna cymerwch y troad cyntaf ar y dde a cherddwch o dan bont y rheilffordd. Rydych yn awr ar Heol Casnewydd. Ewch yn eich blaen, gan groesi Heol Knox ac yna Fitzalan Place. Bydd Gwesty a Sba Mercure Holland House Caerdydd ar eich ochr dde.

**Car:** Gall fynychwyr y Gynhadledd sy'n aros yng Ngwesty a Sba Mercure Holland House Caerdydd barcio ym maes parcio tanddaearol y gwesty. Mae yna hefyd nifer cyfyngedig o lefydd parcio ar gael i'r anabl yno.

Mae'r maes parcio cyhoeddus agosaf at leoliad y Gynhadledd ar Knox Road.

Os ydych yn teithio mewn car ymadaewch yr M4 ar gyffordd 29, 32 neu 33 a dilynwch yr arwyddion tuag at Ganol Dinas Caerdydd. Wrth agosáu at ganol y ddinas, dilynwch yr arwyddion i faes parcio Knox Road.

## Cynhadledd y Gwanwyn 2013

Caerdydd

# Gwybodaeth

Wrth adael y maes parcio, trowch i'r dde tuag at Heol Casnewydd. Trowch i'r dde cyntaf a pharhewch, gan groesi Fitzalan Place. Bydd Gwesty a Sba Mercure Holland House Caerdydd ar eich ochr dde.

Mae sawl maes parcio cyhoeddus arall yng nghanol y ddinas yn ogystal â nifer fach o fannau parcio ar y stryd gerllaw.

Nodwch fod rheolau parcio yn cael eu gorfodi'n llym yng nghanol dinas Caerdydd.

## Diogelwch

Gan fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn rhan o Lywodraeth y DU roedd diogelwch yn dynnach nag arfer yng Nghynhadledd y Gwanwyn llynedd. Bydd llawer o'r gweithdrefnau newydd hefyd yn eu lle ar gyfer y Gynhadledd hon.

Mae Pwyllgor y Gynhadledd yn gofyn i bawb sy'n mynychu'r Gynhadledd i weithio gyda ni er mwyn diogelu'r Gynhadledd. Mae cydymffurfio â'r gweithdrefnau diogelwch yn amod mynediad i'r Gynhadledd.

## Bathodynnau Cynhadledd

Mae'n rhaid gwisgo Bathodynnau'r Gynhadledd yng Nghanolfan y Gynhadledd ar y Dydd Sadwrn a Dydd Sul.

Os ydych wedi cofrestru ymlaen llaw gallwch gasglu eich Bathodyn Cynhadledd oddi wrth y ddesg gofrestru ar ôl cyrraedd ar y Dydd Sadwrn neu Dydd Sul. Rhaid i chi ddod â'ch llythyr/e-bost cadarnhau cofrestru ac ID ffotograffig gyda chi i gasglu eich Bathodyn Cynhadledd. Efallai na fyddwch yn gallu derbyn eich Bathodyn Cynhadledd os nad oes gennych y ddau o'r rhain. Os nad ydych wedi derbyn eich llythyr cadarnhad o fewn pythefnos o gofrestru, neu dri diwrnod cyn y gynhadledd, cysylltwch â 029 2031 3400 i gadarnhau bod eich cofrestriad wedi ei dderbyn a'i brosesu.

Os nad ydych wedi cofrestru ymlaen llaw bydd eich Bathodyn

**Cynhadledd y Gwanwyn 2013**

# Gwybodaeth

Gynhadledd yn cael ei baratoi pan fyddwch yn cofrestru ar y diwrnod.

Bydd bathodynnewydd ond yn cael eu paratoi yn ôl disgrisiwn Cadeirydd Pwyllgor y Gynhadledd. Bydd ffi o £10 ar gyfer bathodynnewydd.

## **ID Ffotograffig**

Bydd y mathau canlynol o ID ffotograffig yn cael eu derbyn ar y diwrnod:

- Pasbort (byddwn yn derbyn pasbortau sydd wedi dod i ben)
- Trwydded yrru ffotograffig
- Cerdyn adnabod myfyrwyr ffotograffig dilys
- CitizenCard
- Cerdyn adnabod y Lluoedd Arfog

Os nad oes gennych unrhyw un o'r ID ffotograffig uchod byddwn yn derbyn dau o'r canlynol yn lle:

- ID di-ffotograffig
- Tystysgrif geni
- Cerdyn banc wedi'i lofnodi
- Bil cyfleustodau
- Cyfriflen banc
- Slip cyflog
- Cerdyn ID myfyrwyr di-ffotograffig dilys
- Cerdyn Yswiriant Gwladol

## **Chwiliadau Diogelwch**

Ar adegau, fe fydd chwiliadau diogelwch 'arddull maes awyr' ar waith yn y lleoliadau. Bydd pawb sy'n mynychu'r Gynhadledd ar yr adegau hyn yn ddarostyngedig i chwiliadau o'r fath. Mynedfaoedd bwaog synhwyrdd metel a/neu chwiliadau bag fydd yn cael eu defnyddio.

Ni fydd bagiau mawr nac eitemau wedi'u selio yn cael eu gadael i

## **Cynhadledd y Gwanwyn 2013**

Caerdydd

# Gwybodaeth

fewn i'r ardal ddiogel yn ystod y cyfnodau hyn. Ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw un sy'n aros yn y Gwesty.

## Tocynnau a Gwahoddiadau

Os ydych yn mynychu Cinio'r Gynhadledd, digwyddiadau ymylol neu dderbyniad gwahoddiad yn unig (mae'r rhain wedi cael eu nodi'n glir yng Nghlanllaw'r Gynhadledd neu yng Nghyhoeddiadau'r Gynhadledd) mae'n rhaid i chi ddod â'ch tocyn neu wahoddiad gyda chi ac mae'n rhaid i chi fod yn gwisgo eich Bathodyn Gynhadledd. Fel arall, bydd mynediad yn cael ei wrthod.

## Cofrestru

### Y Ddesg Gofrestru

Gellir dod o hyd i'r Ddesg Gofrestru ger prif fynedfa Canolfan y Gynhadledd. Fydd ar agor:

Dydd Sadwrn 20 Ebrill: 09:00 – 17:00

Dydd Sul 21 Ebrill: 09:00 – 13:30

### Cofrestru Ymlaen Llaw

Gall pawb gofrestru arlein wrth ymweld â [www.DemRhyddCymru.org.uk](http://www.DemRhyddCymru.org.uk). Gallwch gofrestru arlein hyd at ddydd Mawrth 16 Ebrill.

Gall aelodau'r Blaid ac Arsylwyr hefyd gofrestru drwy'r post. Gallwch lawrlwytho ffurflen gofrestru oddi ar y wefan neu wrth wneud cais drwy ffonio 029 2031 3400. Gallwch gofrestru o flaen llaw drwy'r post tan ddydd Gwener 12 Ebrill.

Fydd pawb sy'n cofrestru arlein yn derbyn e-bost o gadarnhad. Byddwn yn ymdrechu i anfon llythyr cadarnhad i bawb sydd wedi cofrestru drwy'r post. Os nad ydych wedi derbyn eich llythyr cadarnhad o fewn pythefnos o gofrestru, neu dri diwrnod cyn y gynhadledd, cysylltwch â 029 2031 3400 i gadarnhau bod eich

# Gwybodaeth

cofrestrriad wedi ei dderbyn a'i brosesu.

Bydd angen eich llythyr/e-bost cadarnhau ac ID ffotograffig pan fyddwch yn casglu eich Bathodyn Gynhadledd. Os nad oes gennych eich llythyr cadarnhad efallai na fyddwch yn gallu derbyn eich Bathodyn Cynhadledd oni bai eich bod wedi rhoi gwybod i ni nad ydych wedi derbyn y llythyr.

## **Cofrestru ar y Dydd**

Gallwch gofrestru ar gyfer y Gynhadledd ar y diwrnod.

Os ydych yn cofrestru ar y diwrnod bydd angen i chi ddod â'r ffi cofrestru priodol ac ID ffotograffig gyda chi. Am ragor o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at dudalen 18. Gallwch hefyd arbed amser ar y diwrnod drwy lenwi ffurflen gofrestru ymlaen llaw a gwneud yn siwr bod gennych yr arian cywir neu siec wedi ysgrifennu yn barod pan fyddwch yn cyrraedd y Ddesg Gofrestru. Gallwch lawrlwytho ffurflen gofrestru oddi ar wefan y blaid [www.DemRhyddCymru.org.uk](http://www.DemRhyddCymru.org.uk).

# Agenda'r Gynhadledd

## Bore Sadwrn

### 10:00 Agor y Gynhadledd

Christine Humphreys,  
*Llywydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru*

#### **Araith**

#### **Gwir Anrh Nick Clegg AS**

*Dirprwy Brif Weinidog ac Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol*

### 10:30 Cynnig Polisi

C/M1: Trafnidiaeth Gyhoeddus ar gyfer Myfyrwyr a Phobl Ifanc

### 11:15 Atebion i'ch Cwestiynau:

#### **Mark Williams AS**

*Cyd-Gadeirydd ar Bwyllgor Seneddol y Blaid ar Faterion Cymreig*

### 11:30 Ynni Q&A

#### **Gwir Anrh Ed Davey AS**

*Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd*

## Prynhawn Sadwrn - Cynnar

### 13:30 Atebion i'ch Cwestiynau:

#### **Yr Arglwydd German**

*Cyd-Gadeirydd ar wyllgor Seneddol y Blaid ar Waith a Phensiynau*

### 13:45 Cyflwyniad

#### **Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru**

Yn dilyn cyhoeddiad diweddar  
Ymchwiliad Francis i Ymddiriedolaeth  
Sefydledig GIG Canolbarth Swydd  
Stafford, mae'n amser trafod sut y gallwn sicrhau bod cleifion yn cael  
gofal diogel ac urddasol.



Coleg Nyrsio Brenhinol  
Cymru  
Royal College of Nursing  
Wales

Ni wnaiff y Coleg Nyrsio Brenhinol fyth gydoddef arfer nyrsio gwael, ac mae'n rhaid i ni gofio bod degau o filoedd o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd yma yng Nghymru yn darparu gofal rhagorol bob dydd. Mae ein hymgyrch 'Amser i Ofalu' yn pwysleisio'r ffaith bod angen rhoi amser i staff nyrsio gyflawni eu rôl hyd eithaf eu gallu. Bydd y sesiwn

## Cynhadledd y Gwanwyn 2013

# Agenda'r Gynhadledd

hon yn rhoi cyfle i aelodau'r blaidd drafod eu pryderon am wasanaethau iechyd yng Nghymru gyda Chadeirydd Bwrdd RCN Cymru, Cyfarwyddwr RCN Cymru a Kirsty Williams AC.

## 14:45 Cynnig Polisi

C/M2: Pwysigrwydd Addysg Wleidyddol yn y Cwricwlwm

## 15:00 Cynnig Amserol / Brys

# Prynhawn Sadwrn - Hwyr

## 16:30 Cynnig Polisi

C/M3: Caniatâd i Gynllunio: Diwygio'r Broses Gynllunio yng Nghymru

# Bore Sul

## 09:45 Brîff Ymgyrch gyfrinachol

Brîff ar gyfer aelodau yn unig gan Ryan Coetzee, Cyfarwyddwr Strategaeth Nick Clegg.

## 11:00 Araith

### Gwir Anrh Danny Alexander AS

*Prif Ysgrifennydd y Trysorlys*

## 11:30 Cynigion Polisi & Busnes

C/M4: Rhoi Disgyblion yn Gyntaf: Gwella Safonau Ysgolion yng Nghymru

C/M5: Diwygio Cyfansoddiadol: Swyddog Canlyniadau a Rheolau Etholiadau Mewnol

## 12:45 Atebion i'ch Cwestiynau:

### Y Farwnes Randerson

*Gweinidog Gwladol, Swyddfa Cymru*

# Cynhadledd y Gwanwyn 2013

Caerdydd

# Agenda'r Gynhadledd

## Prynhawn Sul

**14:00 Atebion i'ch Cwestiynau:**

**Roger Williams AS**

*Dirprwy Arweinydd Democratiaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru*

**14:15 Cynnig Amserol / Brys**

**14:30 Araith**

**Kirsty Williams AC**

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru*



## Gwybodaeth am y Cynigion

Mae pob Cynnig sydd yn cael ei drafod yn y Gynhadledd yn ymddangos yn yr adran hon yn yr un drefn ag y maent yn cael eu galw yn Agenda'r Gynhadledd

### Iaith y Cynigion

Mae pob cynnig sy'n ymddangos yn y Canllaw hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gan fod yr holl gynigion wedi eu cyflwyno yn wreiddiol yn Saesneg, os oes anghysondeb o ran iaith, y fersiwn Saesneg fydd yn derbyn blaenoriaeth.

### Gwelliannau i Cynigion

Gall pob cynnig sydd yn ymddangos yn y Canllaw hwn gael ei wella.

Gall ddiwygiadau gael eu cyflwyno gan Bleidiau Lleol, Pwyllgor y Blaid Gymreig sy'n gyfrifol am y mater a godwyd yn y cynnig, Gr p Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru neu yn Senedd y DU, neu 20 Cynrychiolydd Cynhadledd.

Bydd yr holl ddiwygiadau **sydd wedi'u** derbyn ar gyfer dadl yn cael **eu cyhoeddi** yng **Nghyhoeddiadau'r** Gynhadledd a fydd ar gael ar wefan y Blaid [www.WelshLibDems.org.uk](http://www.WelshLibDems.org.uk) yn ystod yr wythnos cyn y Gynhadledd ac o'r Ddesg Gofrestru yn **ystod** y Gynhadledd.

### Cynigion Amserol

Mae Cynigion Amserol yn gynigion polisi sy'n seiliedig ar ddigwyddiad sy'n digwydd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion polisi h.y. 27 Chwefror.

Gall Gynigion Amserol gael eu cyflwyno gan Bleidiau Lleol, Pwyllgor y Blaid Gymreig sy'n gyfrifol am y mater a godwyd yn y cynnig, Gr p Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru neu yn Senedd y DU, neu 20 Cynrychiolydd Cynhadledd.

## Cynhadledd y Gwanwyn 2013

Caerdydd

# Cynigion

Gall Cynigion Amserol a gyhoeddwyd yn Nghyhoeddiadau'r Gynhadledd gael eu gwella. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliant i Gynnig Amserol yw 9:45 ar ddydd Sadwrn 20 Ebrill. Dylai gwelliannau gael eu e-bostio i

Policy.Officer@WelshLibDems.org.uk neu ei roi i'r Swyddog Polisi neu Gadeirydd Pwyllgor y Gynhadledd ar ffurf copi caled.

## **Cynigion Brys**

Mae Cynigion brys yn gynigion sy'n ymwneud â digwyddiad sy'n digwydd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer Cynigion Amserol. Dylai Cynigion Brys fod yn gryno.

Gall Cynigion Brys gael eu cyflwyno gan Bleidiau Lleol, Pwyllgor y Blaid Cymreig sy'n gyfrifol am y fater a godwyd yn y cynnig, y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru neu yn Senedd y DU, neu 20 Cynrychiolydd Cynhadledd.

Mae dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Cynigion Brys yn dibynnu ar amseru pwnc y cynnig. Ar gyfer digwyddiadau sy'n digwydd cyn dechrau'r Gynhadledd y dyddiad cau yw dechrau'r Gynhadledd h.y. 9:45 ar ddydd Sadwrn 20 Ebrill. Ar gyfer digwyddiadau sy'n digwydd yn ystod y Gynhadledd y dyddiad cau yw tair awr cyn y slot yn yr agenda ar gyfer Cynigion Brys.

Wrth gyflwyno Cynnig Brys mae rhaid nodi'n glir enwau'r bobl a fydd yn symud a chrynhofi'r cynnig. Os na fydd hyn yn digwydd ni fydd Pwyllgor y Gynhadledd yn derbyn y Cynnig Brys.

## Siarad yn y Gynhadledd

### **Pwy all Siarad?**

Gall Aelodau'r Blaid sydd wedi cofrestru fel aelod bleidleisio neu aelod heb bleidlais siarad mewn unrhyw ddadl. Gall Sylwebyddion Cofrestredig siarad gyda chaniatâd Pwyllgor y Gynhadledd.

### **Hyd Areithiau**

Ym mhob dadl caniateir 5 munud i Gynigwyr Mesur, 4 munud i Gynigwyr Gwelliannau a 3 munud i bob siaradwr arall, yn cynnwys Crynhoiwyr Cynigion a Gwelliannau. Gall y Cadeirydd leihau'r amseroedd hyn i ganiatáu i fwy o aelodau cael siarad mewn dadl. Os byddant yn gwneud hyn byddant yn cyhoeddi'r newid yn ystod y ddadl. Os ydych chi'n siarad ac mae'r Cadeirydd yn gofyn i chi ddod â'ch araith i ben, gorffennwch yn brydlon os gwelwch yn dda.

### **Cyfieithu ar y Pryd**

Pan fo cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael gwnewch yn fawr o'r cyfle i annerch y Gynhadledd yn Gymraeg.

Dyma rai awgrymiadau ynglŷn â sut i gael y gorau allan o'r gwasanaeth hwn: dangoswch ar eich cerdyn siaradwr eich bod chi'n dymuno siarad yn Gymraeg; ceisiwch siarad yn Gymraeg drwy gydol eich araith; os ydych chi'n newid ieithoedd yn ystod eich araith, cymerwch saib wrth newid ieithoedd er mwyn caniatáu amser i'r cyfieithydd orffen.

Gellir casglu clustffonau cyfieithu o'r bwrdd ger mynedfa Neuadd y Gynhadledd. A wnewch chi sicrhau eich bod yn dychwelyd y clustffonau wedi i chi eu defnyddio. Os oes set o glustffonau yn mynd ar goll yn ystod y Gynhadledd, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i bwyllgor y Gynhadledd gyflwyno system blaendal o £5 am weddill y penwythnos.

# Cynigion

## Sut i fynd ati i Siarad

Ddylai unrhyw un sydd am siarad mewn dadl lenwi cerdyn siaradwr a'i gyflwno i Fwrdd y Siaradwyr ac aros i weld os ydynt yn cael eu galw yn y ddadl. Dylai cerdyn gwahanol gael ei lenwi ar gyfer pob dadl. Mae cardiau Siaradwyr ar gael o Fwrdd y Siaradwyr a stiwardiaid yn yr awditiwrwm. Gellir hefyd eu casglu oddi wrth y Ddesg Gofrestru.

## Cwblhau Cardiau Siaradwyr

Ceir tri phwynt allweddol i'w cofio er mwyn rhoi'r siawns gorau i chi gael eich galw:

1. Cyflwynwch eich cerdyn ymhell ymlaen llaw. Os yw eich cerdyn wrth law yn hwyr mewn dadl poblogaidd, ni fydd llawer o siawns i gael siarad. Mae'r tîm cadeirio ar gyfer y ddadl yn cwrdd ymlaen llaw i gynllunio'r ddadl.
2. Llenwch eich cerdyn yn gyfan. Yr ail gamgymeriad mae darpar siaradwyr yn ei wneud yw hanner llenwi eu cerdyn. Yn ogystal â'r wybodaeth ar flaen y cerdyn (enw, plaid leol, o blaid neu yn erbyn y cynnig, ac ati), mae yna ddwy adran ar y cefn, ar gyfer cefndir perthnasol (proffesiynol neu brofiad defnyddiol, cefndir yn y blaid, ac ati) ac ar gyfer amlinelliad byr o'r hyn yr ydych yn mynd i ddweud.
3. Gwneud yn siwr ei fod yn ddarllenadwy! Peidiwch â chymryd hyn fel gwahoddiad i lenwi pob centimetr sgwâr o'r cerdyn, a pheidiwch ag ysgrifennu yn annarllenadwy, neu mewn llythrennau bach iawn, neu mewn inc gwyrdd.

## Trefn Y Ddadl

Yn gyffredinol, fydd Cynigion yn cael eu hystyried yn y modd canlynol:

1. Cynigydd y Cynnig.
2. Bydd cynigwyr unrhyw welliannau yn siarad yn eu tro.
3. Bydd siaradwyr yn cael eu galw a fydd y Cadeirydd yn ceisio sicrhau cydbwysedd.
4. Bydd crynhoiwyr y gwelliannau yn siarad yn eu tro.
5. Bydd crynhoiwr y cynnig yn siarad.
6. Bydd y Cadeirydd yn cymryd pleidlais ar y gwelliannau a/neu bleidleisiau ar wahân (os oes rhai) yn eu tro - o blaid ac yn erbyn.
7. Cynhelir pleidlais ar y cynnig yn ei gyfanrwydd.

## Pleidleisio

Dim ond Aelodau Pleidleisio fydd yn gallu pleidleisio. Fydd Aelodau Pleidleisio gyda "Pleidleisio" ar gefn eu Bathodyn Cynhadledd.

Os ydych yn dymuno pleidleisio mewn dadl mae rhaid i chi fod yn Neuadd y Gynhadledd erbyn diwedd araith crynhoiwr y cynnig oherwydd ni fydd neb yn cael mynd i mewn i'r neuadd unwaith y bydd y pleidleisio wedi cychwyn.

Er mwyn bleidleisio, dylech fod ar eich eistedd ac yn dal eich Bathodyn Gynhadledd yn yr awyr, gyda'r ochr "Pleidleisio" yn wynebu'r Cadeirydd.

Dilynwch gyfarwyddiadau y Cadeirydd ar y pryd i bleidleisio. Efallai y gofynnir i chi gadw eich Bathodyn Cynhadledd yn yr awyr am amser i sicrhau y gall yr holl bleidleisiau cael eu cyfri.

# Cynigion

## Cynigion Trefniadol

Mae Cynigion Trefniadol yn ymwneud â gweithdrefn y Gynhadledd:

**Cyfeirio yn ôl** - rhoi'r gorau i ddadlau ar Gynnig ac anfon y Cynnig at gorff arbennig ar gyfer mwy o waith.

**Busnes Nesaf** - i roi'r gorau i drafod a symud at yr eitem nesaf.

**Atal Rheolau Sefydlog** - i godi un neu fwy o'r rheolau sy'n rheoli gweithrediad y Gynhadledd.

Gall Cynigion Trefniadol gael eu cyflwyno gan unrhyw aelod pleidleisio yn ysgrifenedig ynghyd â datganiad o resymau hyd at 75 o eiriau neu lai.

Bydd y pleidleisiau yn cael eu cymryd yn yr un ffordd ag ar gyfer Cynigion a Gwelliannau, ac eithrio nid oes pwynt torri i ffwrdd i fod yn Neuadd y Gynhadledd ar gyfer y bleidlais ar p'un ai i gael dadl-fach. Mae penderfyniadau ar gynigion trefniadol yn cael eu gwneud gan fwyafrif syml o'r rheiny sy'n pleidleisio.

Yn gyffredinol fydd Cynigion Trefniadol yn cael eu hystyried yn y modd canlynol:

1. Gall unrhyw Aelod pleidleisio gynnis Cynnig Trefniadol yn ysgrifenedig cyn diwedd dadl ar y Cynnig.
2. Mae'r Cadeirydd yn darllen y datganiad ysgrifenedig o blaid y cynnis trefniadol.
3. Fydd pleidlais yn cael ei gymryd ar p'un a fydd dadl-fach ar y cynnis Trefniadol.

Os penderfynir cynnal dadl fach:

4. Gall gynigydd y cynnis trefniadol siarad.
5. Gall rhywun sy'n gwrthwynebu'r Cynnig Trefniadol siarad.
6. Gall siaradwyr eraill gael eu galw i siarad.
7. Cynhelir pleidlais ar y Cynnig Trefniadol.

## **C/M1: Trafnidiaeth Gyhoeddus ar gyfer Myfyrwyr a Phobl Ifanc (IR Cymru)**

### **Mae'r Gynhadledd yn nodi:**

1. Bod ar gwmnïau bysiau, o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd gyfredol, angen gwneud toriadau gwariant i'w gwasanaethau, a bod cwmnïau'n ailstrwythuro'u rhwydweithiau trafndiaeth lleol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau sy'n weddill yn ddichonadwy yn ariannol..
2. Nad yw rhai gwasanaethau bysiau lleol bob amser yn ddichonadwy yn ariannol, a bod ar rai gwasanaethau angen naill ai cael eu newid neu gael codiadau mewn prisiau tocynnau.
3. Er tra bod y rhan fwyaf o bobl ifanc 16-18 mlwydd oed naill ai mewn addysg neu hyfforddiant llawn amser, eto fe ddisgwylir iddynt dalu'r pris tocynnau oedolion llawn.

### **Mae'r Gynhadledd yn Credu:**

1. Bod pobl ifanc 16-18 mlwydd oed a myfyrwyr yn cael eu taro'n anghymesur gan godiadau mewn tocynnau prisiau trafndiaeth gyhoeddus gan eu bod yn hynod ddibynadwy ar drafndiaeth gyhoeddus cost isel.
2. Er tra bod codiadau uchel mewn tocynnau prisiau yn annheg i bobl 16-24 mlwydd oed, y ffaith bwysicaf yw'r angen am wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus dibynadwy a hygyrch.

### **Mae'r Gynhadledd yn Galw ar:**

1. Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun cenedlaethol i alluogi creu cyfradd deithio i bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc 16-18 mlwydd oed a myfyrwyr llawn amser i gynorthwyo gydag astudiaethau, cyflogaeth, a hyfforddiant.

## **Cynhadledd y Gwanwyn 2013**

# Cynigion

2. Awdurdodau Lleol i sicrhau y dylid cynnal cyfathrebu, lle mae cwmnïau preifat yn cael eu defnyddio i fynd â lle gwasanaethau cyhoeddus, rhwng darpariaeth breifat a chyhoeddus er mwyn sicrhau dal gafael ar ddarpariaeth ddibynadwy o drafnidiaeth.
3. Pwyllgor Polisi Cymru i baratoi cynnig a fyddai'n galluogi'r pensiywyr hynny nad yw pås bws rhad ac am ddim yn hanfodol iddynt gael eithrio o'r cynllun, gyda'r arian a arbedid yn cael ei ddefnyddio i roi teithiau bws rhatach i bobl ifanc 16-18 mlwydd oed, gyda'r nod yn y pen draw o roi teithio am ddim ar fysiau ar gyfer yr ystod oedran hwn.

## **C/M2: Pwysigrwydd Addysg Wleidyddol yn y Cwricwlwm (IR Cymru)**

### **Mae'r Gynhadledd yn nodi:**

1. Bod y lefelau cyfredol o addysg wleidyddol yn y cwricwlwm yn annigonol ac nad yw'r modiwlau dinasyddiaeth cyfredol sydd ar gael i ddisgyblion yn mynd yn ddigon pell i addysgu disgyblion yn ddigonol.
2. Bod cynnydd wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf, ond bod angen gwneud mwy er mwyn sicrhau bod disgyblion, gan mai y nhw yw'r genhedlaeth nesaf, yn llwyr ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel pleidleiswyr.
3. Bod y ganran sy'n pleidleisio yn anghymesur o is yn y gr p oedran 18-25.
4. ymrwymiad hirsefydlog y Democratiaid Rhyddfrydol i ymestyn yr oed pleidleisio i 16.



## **Mae'r Gynhadledd yn Credu:**

1. Bod yna angen, lle mae astudiaethau gwleidyddol yn cael eu cyflwyno i gwricwla, ar gyfer datblygu adnoddau amhleidiol sy'n hyrwyddo trafodaeth a dadansoddiad o ddatblygiad hanesyddol pleidiau gwleidyddol Prydain, y gwahaniaethau mewn systemau pleidleisio, a'r amrywiadau cyfredol yn y sbectrwm gwleidyddol.
2. Y gallai'r ganran sy'n pleidleisio ymysg pobl ifanc, drwy ddarparu mwy o ddealltwriaeth o wleidyddiaeth, gael ei chynyddu ac y byddai cyfreithlondeb y llywodraeth yn cael ei ddyrchafu.
3. Y gellir, drwy gynyddu addysg wleidyddol i ddisgyblion ysgol, diystyru'r ddadl nad yw pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed yn deall y ffordd y mae gwleidyddiaeth Prydain yn gweithio, ac felly na ddylent allu pleidleisio, wrth drafod ymestyn yr etholfraint etholiadol.

## **Mae'r Gynhadledd yn Galw ar:**

1. Y Democratiaid Rhyddfrydol i ymgyrchu dros fwy o addysg wleidyddol yn y cwricwlwm ysgol er mwyn cyfreithloni trafodaethau o ymestyn yr etholfraint wleidyddol.
2. Datblygiad cwricwlwm newydd ar gyfer addysg wleidyddol yng Nghymru sy'n amhleidiol ac sy'n ceisio â hyrwyddo trafodaeth ar, a dealltwriaeth ehangach o, ddulliau pleidleisio, polisïau, a hanes gwleidyddol cyffredinol y Deyrnas Unedig.

# Cynigion

## **C/M3: Caniatâd i Gynllunio: Diwygio'r Proses Gynllunio yng Nghymru (Pwllgor Cenedlaethol Polisi)**

**Mae'r Gynhadledd yn nodi'r** rhan sylweddol sydd gan y broses gynllunio o ran datblygu cymuned ac o ran sbarduno twf economaidd, fel ei gilydd.

**Mae'r Gynhadledd yn ailadrodd** ei chred y dylai cynllunio amcanu at daro cydbwysedd rhwng rhyddid pobl i ddatblygu a dymuniadau democrataidd i gydgyssylltu datblygiad yn ddemocrataidd.

**Mae'r Gynhadledd felly'n cefnogi'r** papur polisi , *Caniatâd i Gynllunio – diwygio'r broses gynllunio yng Nghymru.*

**Mae'r Gynhadledd yn galw** am hyrwyddo datblygiadau mewn ardaloedd dewisol drwy:

- a) Caniatáu i gynghorau ddynodi Ardaloedd Datblygu Tybiedig.
- b) Caniatáu i gynghorau ddatblygu rhag-gysyniad ar gyfer rhywfaint o ddatblygu fel bod caniatâd cynllunio'n haws ei gael ar gyfer prosiectau a ddymunir.

**Mae'r Gynhadledd yn galw** am fwy o arbenigedd yn y system gynllunio drwy:

- a) Creu Asiantaeth Gynllunio Genedlaethol i gydgyssylltu arbenigedd drwy'r system i gyd.
- b) Treialu system achredu ar gyfer asiantau cynllunio.
- c) Gwella cyflymdra a chywirdeb penderfyniadau a gymerir gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

**Mae'r Gynhadledd yn galw** am rymuso cymunedau yn y broses gynllunio drwy:

- a) Caniatáu i awdurdodau lleol amrywio'r fframwaith cynllunio.
- b) Caniatáu ac annog cynghorau i ddarparu'r cyfle i annog arloesedd wrth ddatblygu.
- c) Gwneud cynghorau tref a chymuned yn ymgynghoreion statudol ar geisiadau cynllunio ac annog dirprwyo mân benderfyniadau cynllunio i gynghorau tref a chymuned.

**Mae'r Gynhadledd yn galw** am brosiectau ag arwyddocâd cenedlaethol i gael eu cefnogi drwy:

- a) Parhau i gael prosiectau ag arwyddocâd cenedlaethol a bennir gan Weinidogion Cymru.
- b) Cefnogi a pharhau i weithredu Dinas-ranbarthau.

## **C/M4: Rhoi Disgyblion yn Gyntaf: Gwella Safonau Ysgolion yng Nghymru (Pwllgor Cenedlaethol Polisi)**

**Mae'r Gynhadledd yn nodi** bod Fforwm Addysg Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, dan gadeiryddiaeth Aled Roberts, AC, wedi cyhoeddi papur ymgynghori ac wedi cynnal diwrnod datblygu polisi ym mis Hydref, 2012, sy'n archwilio polisi addysg.

**Mae'r Gynhadledd yn nodi ymhellach** y bydd y Fforwm yn arwain at gynhyrchu papurau ynghylch Addysg Bellach (yn cynnwys cymwysterau) ac Addysg Uwch maes o law.

**Mae'r Gynhadledd yn credu** bod yn rhaid i'r gefnogaeth ar gyfer safonau ysgolion yng Nghymru yn y dyfodol ganolbwyntio ar ganiatáu i bob disgybl gyrraedd eu potensial a rhoi'r grym i ysgolion wthio safonau i fyny.

# Cynigion

**Mae'r Gynhadledd felly yn cefnogi'r** papur polisi, *Rhoi Disgyblion yn Gyntaf – gwella safonau ysgolion yng Nghymru* a'i gynigion i:

- I. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglen fonitro disgyblion unigol er mwyn mesur cynnydd disgyblion, gan alluogi ysgolion i dargedu ymdrechion at y disgyblion hynny nad ydyn' nhw'n cyrraedd eu potensial. Fe ddylai hyn gael ei roi ar waith fesul cam yn raddol, gan ddechrau gyda'r ysgolion sy'n dangos y "gwerth ychwanegol" lleiaf.
- II. Parhau i ehangu'r premiwm disgyblion tan rydym yn cyrraedd ein targed o £2,500. Yn ychwanegol, fe wnawn sicrhau bod ysgolion yn cael eu darparu gyda chanllawiau cynhwysfawr ynagl n â sut y gallant ddefnyddio'r arian premiwm disgyblion orau ac y byddant yn atebol am eu gwariant.
- III. Darparu Strategaeth Cyfnod Canolog sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod disgyblion yn cael eu cefnogi drwy'r cyfnod pwysig hwn, yn cynnwys gwell cydbwysedd o gefnogaeth fugeiliol ac academiaidd
- IV. Sefydlu rhaglen o gyrhaeddiad uchel ledled y wlad, a ariannir yn genedlaethol, fydd yn datblygu ac yn cydgysylltu mynediad at raglenni ar gyfer cyflawnwyr uchel.
- V. Ymgysylltu'n adeiladol gydag Adolygiad Cwricwlwm y Llywodraeth a pheidio â barnu'i ganlyniad ymlaen llaw, ond fe fydd yn dadlau dros welliannau i adran 'cymhwyso gwybodaeth' y cwricwlwm a cheisio â sicrhau bod gan ysgolion ac athrawon ddigon o ryddid i ragori.

# Cynigion

- VI. Diwygio rôl llywodraethwyr er mwyn sicrhau'u bod yn canolbwyntio mwy ar drosolwg strategol. Fe fyddwn hefyd yn treialu cyrff llywodraethol drwy ddalgylch cyfan i werthuso a yw'r rhain yn darparu gwell model ar gyfer trosolwg a chraffu.
- VII. Sicrhau y bydd unrhyw fodel newydd ar gyfer darparu gwasanaethau addysg (boed yn gonsortia rhanbarthol neu'n awdurdodau addysg lleol) yn atebol i awdurdodau lleol.
- VIII. Dal gafael ar drefn asesu gyfredol Estyn, ond diwygio'r system bandio ysgolion er mwyn sicrhau'i bod hi'n mesur perfformiad ysgolion parthed perfformiad disgyblion, yn cynnwys ail-strwythuro'r system i ddangos pa mor dda y mae ysgolion yn cyflawni wrth gefnogi disgyblion i gyrraedd eu potensial eu hunain, yn unol â'n hargymhellion ar gadw golwg ar ddisgyblion unigol.
- IX. Archwilio ansawdd addysgu drwy sefydlu cynllun newydd i ddarparu hyfforddiant hollol arloesol yn genedlaethol, gan wneud cwblhau hyfforddiant cychwynnol athrawon yn ddibynnol ar addysgu am flwyddyn mewn ysgolion, ac edrych ar wneud telerau ac amodau athrawon yn fwy hyblyg i annog yr athrawon gorau i weithio yn yr ysgolion mwyaf ymestynnol ac i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.

# Cynigion

## **C/M5: Diwygio Cyfansoddiadol: Swyddog Canlyniadau a Rheolau Etholiadau Mewnol (Panel Adolygu Cyfansoddiadol)**

**DS** *Gan fod y Cyfansoddiad ar hyn o bryd ond ar gael yn Saesneg, er mwyn osgoi dryswch, 'Cynhadledd yn Galw ar:' adran y cynnig hwn yn cael ei atgynhyrchu yn yr iaith Saesneg yn unig.*

### **Mae'r Gynhadledd yn nodi:**

1. Bod y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar hyn o bryd yn ethol Swyddog Canlyniadau ar sail bob dwy flynedd ac mae'r swydd fel arfer ar gyfer ail-ethol yn 2013 Cynhadledd y Gwanwyn.
2. Bod y ddefod ac arfer y Blaid Ffederal a rhannau cyfansoddol eraill y Democratiaid Rhyddfrydol yw bod y swydd Swyddog Canlyniadau ei ddal gan Gadeirydd y Panel Apeliadau perthnasol a bod aelodau'r staff yn ymgymryd Dros Dro a rolau Dros Dro Dirprwy Swyddog Canlyniadau yn ôl y gofyn.
3. Bod y Blaid Ffederal diwygio ei reolau etholiad yn 2012 i ganiatáu i aelodau i ymgyrchu ar gyfer etholiad i Bwyllgorau Ffederal.

### **Mae'r Gynhadledd yn Credu:**

1. Bod y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru y gallu staff i ddilyn y 'Model Ffederal' a chael Cadeirydd y Panel Apeliadau Cymru fel y Swyddog Canlyniadau yn caniatáu ar gyfer llinellau cliriach i apelio mewn fewnol Rhyddfrydol Cymru Democratiaid Etholiadau.
2. Y dylai aelodau gael yr hawl i ymgyrchu ar gyfer etholiad i Bwyllgorau Blaid Cymru i sicrhau bod yr etholwyr yn gwybod pwy ydynt mewn gwirionedd yn pleidleisio drosto.

## Mae'r Gynhadledd yn Galw ar:

1. Delete Section D.2 of the Welsh Liberal Democrat Constitution and replace with “For the purposes of internal elections provided for under this section of the Constitution the Chair of the Welsh Appeals Panel shall be the Returning Officer and the Chief Executive shall be the Acting Returning Officer. The Acting Returning Officer shall be responsible for the administration of any such election(s) and may appoint one or more Deputy Acting Returning Officers to assist them in their work.”
2. Insert new Section D.3 to the Welsh Liberal Democrat Constitution and re-number accordingly: “The Welsh Liberal Democrat Constitutional Review Panel shall be responsible for keeping the Party’s Election Rules under review and submit any proposals for amendment to the Conference for approval.”
3. In Section E.1 of the Welsh Liberal Democrat Constitution, delete “The Returning Officer”.
4. In Section E.13 of the Welsh Liberal Democrat Constitution, insert “and” between “Leader,” and “Deputy Leaders” and delete “, and the Returning Officer”.
5. In Section M.4 of the Welsh Liberal Democrat Constitution, delete clause e “The Party’s Returning Officer”
6. In Appendix 1, A.1 of the Welsh Liberal Democrat Constitution, insert “and” between “Assembly,” and “Leader of the Parliamentary Party” and delete “, and Returning Officer”.
7. Delete Appendix 1, A.3 of the Welsh Liberal Democrat Constitution.
8. Delete Appendix 1, B.1 of the Welsh Liberal Democrat Constitution and replace with “The Acting Returning Officer shall be responsible for ensuring that any timetable for the relevant elections takes into account the requirements outlined in clause B.2, below.”

# Cynigion

9. In Appendix 1, C.3 of the Welsh Liberal Democrat Constitution, insert “Acting” before “Returning Officer”
10. In Appendix 1, C.5 of the Welsh Liberal Democrat Constitution, insert “Acting” before “Returning Officer”
11. In Appendix 1, C.6 of the Welsh Liberal Democrat Constitution, insert “Acting” before “Returning Officer”
